


# Adroddiad Blynyddol
2020

PARTNERIAETH OGWEN

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn gofnod o waith Partneriaeth Ogwen yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2019 a Rhagfyr 2020. Mae sylw yma i waith a phrosiectau craidd y Bartneriaeth ond mae yma hefyd sylw i ymdrechion staff a gwirfoddolwyr Partneriaeth Ogwen mewn ymateb i bandemig Covid-19. Mae hi wedi bod yn flwyddyn heriol ond gallwn hefyd nodi ei bod hi'n flwyddyn o weithredu cymunedol llwyddiannus gyda Partneriaeth Ogwen yn gweithredu'n arloesol i helpu ein cymuned mewn cyfnod tu hwnt o anodd.

## Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen

Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen yw creu cymuned a sefydliad cydnerth sy'n gweithredu'n arloesol er budd cymunedau, economi ac amgylchedd Dyffryn Ogwen. Rydym yn amcanu i wneud hyn trwy:

- **Gryfhau seiliau'r sefydliad gan gynyddu'n cymhwysedd staffio i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau o'r ansawdd uchaf**
- **Gwarchod a chreu ffrydiau incwm newydd**
- **Atgyfnerthu ein polisïau a gweithdrefnau mewnol i warchod ein staff a gwirfoddolwyr.**
- **Blaenoriaethu prosiectau sy'n creu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gyda ffocws ar drosglwyddo asedau cymunedol, prynu asedau newydd i greu incwm a phrosiectau sy'n gwneud ein cymuned yn fwy gwydn, cynaliadwy a chydnerth.**
- **Cydweithio yn arloesol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.**

Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n holl weithgareddau ac yn cwmpasu cynaladwyedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.
Yn ystod 2020, rydym wedi cynnal darn o waith ymchwil cymunedol sy'n cofnodi barn ein cymuned am faterion megis iaith a diwylliant, cymuned, yr amgylchedd a'r economi. Ar sail y darn hwnnw o waith, rydym yn awr wedi llunio dogfen 'Llwybr Trawsnewid' (Theory of Change) i'r sefydliad a fydd yn llywio ein gwaith yn ystod 2021 a thu hwnt. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan ond yn sylfaenol, gweledigaeth Partneriaeth Ogwen fydd :

***Cyd-greu dyfodol lle mae'r economi, yr iaith a'r diwylliant, yr amgylchedd a'n cymuned yn ffynnu.***

Ar sail yr ymchwil a phrofiadau Partneriaeth Ogwen yn ystod 2020, bydd llesiant a charedigrwydd cymunedol yn rhinweddau craidd i'n gweithredu gyda phwyslais ar gydweithio er lles pawb sy'n byw yn Nyffryn Ogwen.

# Staff, Pwyllgor Rheoli ac Aelodau Bwrdd Partneriaeth Ogwen

**Staff**

Prif Swyddog – Meleri Davies
Clerc a Rheolwr Gweinyddol – Donna Watts
Clerc a Swyddog Gweinyddol – Bethan Griffith
Gofalwr Eiddo – Dylan Jones
Rheolwr Datblygu Cefnfaes – Cynan Jones
Swyddog Cynnal – Adam Quaeck
Rheolwr Dyffryn Gwyrdd – Huw Davies
Swyddog Llesiant a'r Amgylchedd – Judith Kaufmann
Swyddog Llesiant a'r Amgylchedd a Swyddog Marchnata Lleol – Tom Simone
Gweinyddwr Dyffryn Gwyrdd a Swyddog Gweinyddol – Angharad de Bruin
Datblygwr Cymunedol 2019 – Fflur Wyn
Swyddog Datblygu Cadwyn Ogwen – Patrick Rimes
Swyddog Cefnogi Cadwyn Ogwen – Lucinda Enston

Yn ystod haf 2020 hefyd, cyflogwyd 4 person ifanc i weithio efo Partneriaeth Ogwen am 8 wythnos i ddatblygu prosiectau cymunedol. Cyflogwyd Cadi Roberts, Elin Cain, Lisa Tomos a Caleb Rhys ar amrywiol brosiectau. Rydym yn parhau i gadw cyswllt gyda'r 4 a byddwn yn cyflogi Caleb a Lisa dros y misoedd nesaf ar brosiectau cymunedol eraill.

**Cyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen**

Dafydd Meurig
Dafydd Owen
Rheinallt Puw
Cyngor Cymuned Bethesda (Cynrychiolir gan Pearl Evans, Neville Hughes, Mary Jones, Griff Charles Morris a Godfrey Northam)
Cyngor Cymuned Llanllechid (Cynrychiolir gan Geraint Hughes a Kevin Glyn Williams)
Cyngor Cymuned Llandygai (Dafydd Owen a Mair Owen Pierce)




*Staff Partneriaeth Ogwen yn 2020 cyn penodi aelodau Tîm Dyffryn Gwyrdd a Cadwyn Ogwen*

**Pwyllgor Rheoli**

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn ddirprwyaeth o Fwrdd llawn Partneriaeth Ogwen ac yn gynrychioladol o'r tri chyngor cymuned lleol. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod bob deufis i fonitro rhaglen waith Partneriaeth Ogwen. Y Pwyllgor Rheoli yw:


Geraint Hughes – Cynghorydd Cymuned Llanllechid
Neville Hughes – Cynghorydd Cymuned Bethesda
Dafydd Meurig – Cadeirydd Partneriaeth Ogwen a Chynghorydd Sir
Jane Temple Morris – Cynghorydd Cymuned Llanllechid
Dyfrig Jones – Cynghorydd Cymuned Bethesda
Dafydd Owen – Cynghorydd Sir
Mair Pierce – Cynghorydd Cymuned Llandygai
Rheinallt Puw – Cynghorydd Sir

# Cymuned




## Ymateb i Argyfwng Covid-19

Wythnos cyn y clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, daeth staff Partneriaeth Ogwen at ei gilydd i ailgyfeirio egnïon, prosiectau a grantiau tuag at helpu ein cymuned yn ystod yr argyfwng. Ers hynny, mae’r staff a gwirfoddolwyr lleol wedi gweithio yn ddiflino a chafwyd cydnabyddiaeth o’n hymdrechion trwy gael ein cynnwys ar y ‘Social Enterprise UK - Roll of Honour’ yn dilyn enwebiad gan Ganolfan Gydweithredol Cymru a DTA Cymru.




**Gwirfoddoli**

Wythnos cyn y clo, roedd Partneriaeth Ogwen wedi casglu cronfa o 100 o wirfoddolwyr at ei gilydd. Roedd y rhain yn unigolion a oedd yn fodlon gwirfoddoli i helpu cartrefi oedd yn hunanynysu. Rhoddwyd rhifau ffôn y gwirfoddolwyr hyn ar dros 3000 o daflenni a llwyddodd staff a gwirfoddolwyr Partneriaeth Ogwen i’w dosbarthu i gartrefi ar hyd a lled Dyffryn Ogwen. Dros y misoedd dilynol, llwyddodd Partneriaeth Ogwen i gefnogi’r gwirfoddolwyr trwy greu grwpiau WhatsApp i gyd-drafod a chael nwyddau gwrth-haint gan Gyngor Gwynedd. Roedd hyn yn enghraifft o weithredu cymunedol lle llwyddasom i helpu unigolion ar draws y Dyffryn gyda chasgliadau bwyd neu bresgripsiwn mewn cyfnod byr iawn o amser.

# Cefnogi'r banc bwyd

Un o sgil effeithiau’r pandemig fydd tlodi cynyddol. Cyn y pandemig, nid oedd unrhyw fanc bwyd yn Nyffryn Ogwen a byddai trigolion lleol yn gorfod teithio i Fangor neu Gaernarfon i dderbyn parseli bwyd. Ym mis Mawrth 2020, sefydlodd gwirfoddolwraig leol wasanaeth dosbarthu bwyd yn Neuadd Ogwen gyda chyfraniadau hael gan unigolion lleol. Trwy gydweithio, agorodd Partneriaeth Ogwen gynllun codi arian ar blatfform Crowdfunding lle codwyd £2000 gan ein cymuned i dalu am fwyd i’r gronfa. Rhoddwyd rhodd o £3000 i’r gronfa hefyd gan Ynni Ogwen. Ymgeisiwyd hefyd am grantiau a llwyddwyd i ddenu £10,000 gan y Loteri Genedlaethol sydd yn awr yn talu am amser y cydlynydd ac am fwyd i’r gronfa.

Yn fwy diweddar, mae tîm Dyffryn Gwyrdd y Bartneriaeth wedi bod yn gweithio’n agos efo’r cydlynydd i dderbyn rhoddion bwyd gan FairShare gan gynnal sesiynau dosbarthu bob nos Sul o Neuadd Ogwen a bob nos Fawrth o Ganolfan Dyffryn Gwyrdd ar y Stryd Fawr. Ers ei sefydlu, rydym wedi :

- croesawu 935 o ddefnyddwyr
- wedi dosbarthu 140 o barseli bwyd
- arbed gwerth 2.36 tunnell o fwyd rhag mynd i’w dirlenwi.

Bydd tîm Dyffryn Gwyrdd yn parhau i weithio efo’r Banc Bwyd i atal tlodi bwyd a chydblethu hynny efo gwaith gwirfoddoli amgylcheddol.







*Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen a Lucinda Enston, Swyddog Cefnogi Cadwyn Ogwen efo cynrychiolwyr o Zip World a chaffi Blas Lôn Las a cherbyd trydan Zip World.*

## Cadwyn Ogwen

Yn fuan wedi'r cyhoeddiad fod clo ar ddigwydd, daeth Cwmni Bwyd Môr Menai a Cosyn Cymru atom i ddechrau trafod syniadau am sut i helpu busnesau lleol yn ystod yr argyfwng. Roedd pryder cynyddol ymysg busnesau lleol am eu gallu i gyflenwi mewn cyfnod clo a phryder gan drigolion lleol am sut y gallent gael bwyd os oeddent yn hunanynysu. Ar sail y pryderon hyn, penderfynwyd ailgyfeirio prosiect 'Carwen' y car cymunedol trydan (Arloesi Gwynedd Wledig) a grant Arfor (Cyngor Gwynedd) tuag at sefydlu cynllun Cadwyn Ogwen - cynllun arloesol newydd i werthu, danfon a hyrwyddo cynnyrch lleol. Sefydlwyd platfform ar-lein ar www.ogwen.cymru/Cadwyn-Ogwen <http://www.ogwen.cymru/Cadwyn-Ogwen> i werthu cynnyrch cwmnïau lleol. Mae'r cwmnïau hyn yn cynnwys Cwmni Bwyd Môr Menai, Cosyn Cymru, Blas Lôn Las, Amy's Kitchen, The Bakehouse, Cynnyrch Chwarel Goch, Siop Ogwen, Bethesda Bakers, Blodeuwedd Botanics, Fferm Pandy, Inc Pinc, Siop Bwydydd Cyflawn Bethesda, AmserAl, Cupcakes Lois, Derw Coffee, Côr Penrhyn, Keffir Cymru, Crochenwaith Rik Midgley, Cwrw Ogwen, Yr Ardd Fadarch, Popty Bakery a Cŵyr Copa. Mae'r cynllun yn gwerthu nwyddau ar y wefan a bob dydd Iau, mae'r pecynnau yn cael eu danfon i gartrefi lleol.




*Patrick Rimes – Swyddog Datblygu Cadwyn Ogwen efo Alun a Jan – dau o wirfoddolwyr Cadwyn Ogwen yn 2020 gyda Carwen –car cymunedol trydan Arloesi Gwynedd Wledig*

Am bedwar mis cyntaf y cynllun, roedd y danfoniadau hyn yn cael eu gwneud yn Carwen y car cymunedol trydan oedd ar fenthyg i ni am flwyddyn gan Arloesi Gwynedd Wledig. Roedd y car yma'n cael ei bweru trwy bwynt gwefru trydan cymunedol tu allan i'r Llyfrgell ble mae Ynni Ogwen wedi gosod 6KW o baneli solar. Mae Carwen bellach wedi symud ymlaen i gymuned arall felly mae'r danfoniadau yn cael eu gwneud mewn fan drydan sydd ar fenthyg i ni gan Zipworld.

Mae Cadwyn Ogwen yn enghraifft fentrus o'r economi gylchol ar waith. Yn ystod **4 mis cyntaf y cynllun**, cyflawnwyd y canlynol -

- 1000 o ddanfoniadau i gartrefi lleol yn Nyffryn Ogwen.
- Gwerth £25,000 o nwyddau wedi eu gwerthu a'r arian hwn yn cael ei gadw yn yr economi leol.
- Creu dwy swydd newydd (Swyddog Datblygu a Swyddog Cefnogi) a chyfleoedd gwirfoddoli .
- 216.9Kg yn llai o Co2 yn yr aer yn Nyffryn Ogwen trwy wneud danfoniadau mewn cerbyd trydan.
- Cynnal Ffair Cadwyn Ogwen awyr agored ym mis Awst i werthu nwyddau crefftwyr Cadwyn Ogwen.
- Cydweithio efo Coleg Llandrillo Menai ac Academi Fusnes Gogledd Cymru i gynnig cyrsiau hyfforddiant i fusnesau Cadwyn Ogwen.




*Ystadegau ar sail 4 mis cyntaf cynllun Cadwyn Ogwen*

## Ymchwil Cymunedol

Rhwng mis Awst a Hydref 2020, bu un o swyddogion prosiect Byw a Bod yn arwain darn o waith ymchwil cymunedol i asesu barn ein cymuned ar faterion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Llenwodd 139 unigolyn yr holiadur ar-lein a bydd yr adroddiad ar yr ymchwil yn llywio ein gwaith tua'r dyfodol. Mae rhai ystadegau nodedig yn cael eu nodi isod -

- ***82% yn teimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned yma***
- ***83% yn teimlo bod rhywun yno i'w helpu os oedden nhw angen hynny***
- ***87% yn credu bod cyfle yn Nyffryn Ogwen i greu cymdeithas ac amgylchedd cynaliadwy***

Ymchwil ansoddol oedd hwn a'n bwriad yw ailadrodd yr ymarferiad bob tair blynedd.

# Iaith a Diwylliant




*J.Elwyn Hughes yn cael ei gyfweld gan Ieuan Wyn*

## Cynnal y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn rhan naturiol ac organig o waith Partneriaeth Ogwen. Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y cwmni a Chymraeg yw iaith weinyddol y prosiectau newydd yr ydym yn eu sefydlu. Rydym yn cynnig cyfleoedd cyflogi a gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg i bobl leol ac yn ymhyfrydu yn y ffaith bod nifer fawr o ddysgwyr yn gwirfoddoli ac yn gwella eu Cymraeg efo ni. Yn ystod 2020, bu'r Prif Swyddog yn aelod o is-bwyllgor Cymunedau a'r Gymraeg a fu'n cynghori Gweinidogion Llywodraeth Cymru am effaith Covid-19 ar y Gymraeg. Bydd adroddiad yr ymchwil hwn yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2020.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau i hyrwyddo'r Gymraeg, yn cynnwys gweithgareddau Ras yr Iaith, Gorymdaith Dydd Gŵyl Ddewi a dathliadau Glyndŵr a Thywysoges Gwenllïan. Rydym hefyd wedi trefnu digwyddiadau llenyddol yn enw Siop Ogwen sy'n gyfle i ddathlu llyfrau Cymraeg newydd. Oherwydd Covid-19, ni fu'n bosib i ni gynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb eleni ond trefnwyd gweithgarwch ar-lein. Sefydlwyd Clwb Darllen Cymraeg Dyffryn Ogwen gan un o swyddogion Byw a Bod yn ystod y cyfnod gan roi cyfle i fynychwyr drin a thrafod llyfrau Cymraeg amrywiol mewn sesiynau trafod ar-lein. Yn ogystal â'r clwb, trefnwyd cyfweliadau am amrywiol lyfrau yn cynnwys cyfweliad rhwng Golygydd 'Un yn Ormod' Angharad Griffiths a'r therapydd lleol Gwen Ellis. Ffilmiwyd cyfweliad arbennig hefyd rhwng y Prifardd Ieuan Wyn a J. Elwyn Hughes am ei lyfr diweddaraf 'Trysorau Coll' Caradog Pritchard. Erbyn hyn, mae'r Clwb Darllen yn denu tua 10 aelod bob mis ac yn cael ei arwain gan wirfoddolwraig leol. Yn yr un modd, trefnwyd sesiynau celf wythnosol i blant efo'r artist lleol Elen Williams yn ystod Medi, Hydref a Thachwedd 2020 gan roi cyfle i blant greu crefftau dros Zoom. Mae'r gweithgareddau hyn yn digwydd mewn partneriaeth â Siop Ogwen gyda'r bwriad o gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw.




*Gweithdy Celf Ar-lein i blant efo'r artist Elen Williams*

## 200 Mlwyddiant Bethesda

Roedd Bethesda yn 200 mlwydd oed yn 2020 ond oherwydd Covid-19, ni fu modd i'n cymuned ddathlu'r garreg filltir hon. Fel rhan o brosiect Byw a Bod, gofynwyd i un o'r swyddogion arwain cais i'r gronfa Treftadaeth Loteri am £10,000 tuag at hyrwyddo'r dathliad yn gymunedol a defnyddio hynny fel bachyn i godi ymwybyddiaeth o'n treftadaeth leol. Bu'r cais yn llwyddiannus a bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu rhwng Rhagfyr 2020 a diwedd Mawrth 2021.

# Amgylchedd



*Aelodau staff Partneriaeth Ogwen a Grwp Llywio Dyffryn Gwyrdd yn dathlu llwyddiant cais Dyffryn Gwyrdd i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.*

## Dyffryn Gwyrdd

Yn dilyn blynyddoedd o waith yn datblygu prosiectau cynaladwyedd yn Nyffryn Ogwen a gyda chefnogaeth Ynni Ogwen i ariannu Cydlynydd Dyffryn Gwyrdd yn 2019-2020, arweiniodd Partneriaeth Ogwen gais arloesol i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ariannu cynllun Dyffryn Gwyrdd. Mae'r prosiect hwn yn gynllun i atal tlodi trwy weithredu amgylcheddol cymunedol. Bu'r cais am ychydig dan hanner miliwn yn llwyddiannus ac mae tîm o staff bellach wedi eu penodi i ddatblygu'r prosiect. Bydd y prosiect yn atal tlodi ar sawl lefel ond mae ffocws penodol ar daclo tlodi tanwydd, tlodi trafnidiaeth a thlodi bwyd gyda phwyslais atodol ar rymuso'n cymuned trwy ddod â phawb at ei gilydd i wirfoddoli gyda phrosiectau amgylcheddol. Mae Bwrdd Llywio Dyffryn Gwyrdd yn cynnwys nifer o bartneriaid cymunedol lleol a gyda'n gilydd byddwn yn cydweithio tuag at atal tlodi yn lleol.

Ers sefydlu'r prosiect, rydym wedi -

- Penodi tîm o staff yn cynnwys Rheolwr Prosiect, Gweinyddwr a dau Weithiwr Llesiant a'r Amgylchedd rhan amser a chynnal cynllun sesiwn hyfforddiant anwytho ymarferol i'r tîm newydd yn cynnwys Helfa Ffwng ym Mharc Meurig
- Cefnogi'r Banc Bwyd a sefydlu nosweithiau rhannu bwyd wythnosol trwy gynllun FairShare
- Sefydlu partneriaeth a phwynt cyfrannu bwyd yn siop Londis, Bethesda
- Archebu Car Trydan Cymunedol
- Arwain cynlluniau plannu coed yn lleol gan blannu 250 o goed - 200 ohonynt yn dderw a'r gweddill yn goed ffrwythau
- Arwain digwyddiadau amgylcheddol yn cynnwys digwyddiad Beics Trydan pan ddaeth dros 50 o bobl leol at ei gilydd i drafod beiciau trydan.
- Sefydlu partneriaeth gyda Cwmni Byw'n Iach i greu gardd gymunedol a rhandiroedd ym Mhlas Ffrancon.
- Sefydlu partneriaeth newydd gyda Chaffi Coed y Brenin, 'Cyfaill Cymunedol' i ddanfon prydau poeth a chwmnïaeth i drigolion hŷn y dyffryn gyda grant ICF trwy law Cyngor Gwynedd.

## Ynni Ogwen a Heuldro Ogwen

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i ddarparu gwasanaeth ysgrifenyddol i Fwrdd Ynni Ogwen dan gytundeb lefel gwasanaeth. Yn ystod 2019, cydweithiodd Partneriaeth Ogwen gydag Ynni Ogwen yn datblygu cynllun solar cymunedol. Mae Ynni Ogwen bellach wedi gosod 21KW o baneli solar ar 6 adeilad cymunedol yn Nyffryn Ogwen, yn cynnwys Llyfrgell Dyffryn Ogwen a swyddfa Partneriaeth Ogwen. Mae hyn yn lleihau ôl troed carbon Partneriaeth Ogwen ac yn cyd-fynd â'n gweledigaeth o Ddyffryn Ogwen gynaliadwy. Bydd Partneriaeth Ogwen yn parhau i ganfod cyfleoedd i gydweithio gydag Ynni Ogwen yn y dyfodol gan gynnwys datblygu pwyntiau gwefru neu baneli solar ar fwy o'n hadeiladau neu eiddo yn y pentref.

## Cerbyd Cludiant Cymunedol Trydan

Yn dilyn cais llwyddiannus i Arloesi Gwynedd Wledig, llwyddodd y Bartneriaeth i gael car trydan i'w ddefnyddio yn ein cymuned rhwng Tachwedd 2019 a Thachwedd 2020. Bu'r peilot yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o geir trydan a'r arfer o rannu ceir. Yn ystod y flwyddyn, ymunodd 64 o unigolion â chynllun CoWheels - sef y cwmni oedd yn prydlesu'r cerbyd i ni a theithiodd Carwen 6,000 milltir ar berwyl cymunedol rhwng Tachwedd 2019 a Chwefror 2020. Yn ystod y cyfnod hefyd, aeth y car ar ymweliadau addysgol â nifer o ysgolion lleol gan godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o geir trydan. Recriwtiwyd gwirfoddolwyr i yrru'r cerbyd hefyd at ddibenion cymunedol yn cynnwys casglu presgripsiynau i henoed yn ystod y pandemig. Yn dilyn y clo, cyfyngwyd ar ein gallu i logi'r car allan ac ail-gyfeiriwyd y cerbyd tuag at gefnogi cynllun Cadwyn Ogwen gyda danfoniadau i 1000 o gartrefi rhwng Ebrill a Medi. Roedd y peilot yn gyfle gwych i gynyddu'r galw am gludiant cymunedol cynaliadwy a bydd y wybodaeth yn ein helpu wrth i gar trydan Dyffryn Gwyrdd ddod i'n meddiant ddiwedd 2020.






*Huw Davies – Rheolwr Prosiect Dyffryn Gwyrdd efo Carwen y Car Cymunedol ger y pwynt gwefru a phaneli solar Ynni Ogwen yn Llyfrgell Gymunedol Bethesda*

## GwyrddNi

Yn ystod 2020, bu Partneriaeth Ogwen yn bartner mewn cais loteri arall i gronfa Newid Hinsawdd y Loteri Genedlaethol. Arweiniwyd y cais gan Datblygiadau Egni Gwledig i ddatblygu prosiect ar y cyd rhwng Cyd Ynni, Cwmni Bro Ffestiniog, Siop Griffiths, Ynni Llŷn a Phartneriaeth Ogwen i daclo newid hinsawdd o'r gwaelod i fyny. Bu'r cais hwn yn llwyddiannus a bydd y prosiect gwerth £560,000 yn cyflogi tîm o staff i sefydlu Cynulliadau Newid Hinsawdd ym mhob cymuned dros gyfnod y prosiect. Bydd Cydlynydd Newid Hinsawdd yn cael ei leoli yn swyddfeydd Partneriaeth Ogwen ym Methesda gyda'r gwaith o sefydlu Cynulliad Newid Hinsawdd yn lleol efo'r bwriad o annog ein cymuned i berchnogi'r agenda newid hinsawdd yn lleol.

# Economi




## Cefnogi Busnesau

Mae nifer o brosiectau Partneriaeth Ogwen yn ymwneud â datblygu'r economi sylfaenol yn lleol gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i feithrin busnesau bach lleol. Mae Cadwyn Ogwen wedi cadw dros £30,000 yn yr economi leol eleni gyda'r arian yna'n mynd yn ôl i fusnesau lleol mewn cyfnod anodd. Rydym hefyd yn cydweithio â busnesau mwy'r ardal yn cynnwys Welsh Slate, CLJones a Zip World ar gynlluniau megis www.ogwen.cymru <http://www.ogwen.cymru> Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r cydweithio gyda'r sector fusnes yn 2020;

**Gwefan www.ogwen.cymru a Chynllun WiFi Cymunedol**

Mae gwefan www.ogwen.cymru yn parhau i dyfu fel adnodd i hyrwyddo gweithgarwch cymunedol a busnesau lleol. Roedd y wefan yn ffrwyth cydweithio efo Fforwm Busnes y Stryd Fawr a chefnogaeth 4 prif noddwr masnachol sef ZipWorld, Welsh Slate, CLJones a Chyngor Cymuned Bethesda. Mae Partneriaeth Ogwen hefyd wedi buddsoddi arian ein hunain yn y cynllun i gyflogi Swyddog Marchnata Lleol i ddatblygu cynnwys i'r wefan, chwilio am nawdd pellach a chreu ymgyrchoedd cyfathrebu. Mae'r Swyddog hefyd wedi bod yn darparu cefnogaeth ymarferol i fusnesau lleol e.e. ffotograffiaeth, cyngor marchnata ayyb.

**Cyrsiau Busnes**

Rydym hefyd wedi cydweithio efo Coleg Llandrillo Menai a'r Academi Fusnes Gogledd Cymru i gynnig cyrsiau blasu i fusnesau lleol. Bu'r cyrsiau Cyfryngau Cymdeithasol a Chyflwyniad i Gadw Llyfrau yn llwyddiant.

**Digwyddiadau Busnes**

Mae Covid-19 wedi cyfyngu ar y nifer o ddigwyddiadau y gellir eu cynnal eleni ond rydym wedi datblygu cyfleoedd i ddod â busnesau lleol ynghyd. Yn Awst 2020 cynhaliwyd Ffair Cadwyn Ogwen lle mynychodd tua 300 o bobl ffair fwyd a chrefftau lleol.

**Gwaith Ymgynghorol**

Mae'r Bartneriaeth wedi magu blynyddoedd o brofiad o ran datblygu cymunedol ac mae ystod eang o sgiliau a phrofiadau o fewn y tîm. Yn 2020, rydym wedi dechrau datblygu hyn i gynnig cymorth ymarferol i fusnesau a sefydliadau lleol. Gyda chefnogaeth cronfa Arfor, cyflogwyd aelod o staff gweinyddol gyda'r bwriad o allu cynnig gwasanaeth cadw llyfrau ayyb i fusnesau lleol. Yn ystod y cyfnod, rydym wedi cynorthwyo Neuadd Ogwen gyda cheisiadau grant a chynllunio busnes a chefnogi Cwmni Bwyd Môr Menai gyda gwaith marchnata digidol. Rydym hefyd wedi cynorthwyo mudiadau tu hwnt i ddalgylch Dyffryn Ogwen yn cynnwys gwaith mentora Siop Griffiths ym Mhenygroes trwy gynllun Atebion Mentrus a darparu gwasanaeth ymgysylltu cymunedol i Gwmni Pensaernïol Elinor Gray-Williams. Wrth i grantiau cyhoeddus brinhau, byddwn yn datblygu'r gwasanaethau masnachol y gallwn eu cynnig yn 2021.

## Twristiaeth Gymunedol a Bws Gwennol

Bydd Canolfan Cefnfaes yn gartref i brosiectau twristiaeth gymunedol a chynaliadwy Partneriaeth Ogwen. Yn ystod 2020, cyflwynwyd datganiad diddordeb llwyddiannus i gronfa Ewropeaidd 'Cadwyni Cyflenwi a Chydweithredu' am fws gwennol trydan i gludo twristiaid i fyny i Nant Ffrancon yng nghyfnodau gwyliau brig. Mae cais llawn wedi ei gyflwyno ddechrau Rhagfyr 2020. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y bws yn wasanaeth newydd a fydd, gobeithio, yn datrys rhai o'r problemau parcio i fyny ger Llyn Ogwen a bydd hefyd yn dod â budd economaidd i Fethesda wrth i dwristiaid barcio yn y pentref. Bydd hefyd yn dod â budd amgylcheddol drwy leihau allyriadau carbon yn y parc. Bydd y bws gwennol hefyd ar gael i grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol tu hwnt i gyfnodau twristiaeth.

## Asedau

**Canolfan Cefnfaes**

Yn ystod 2020, rydym wedi creu cynllun busnes a chyflwyno dau gais cyfalaf i gronfeydd y Loteri Genedlaethol a Chronfa Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru. Bydd y brydles yn cael ei harwyddo ym mis Rhagfyr eleni. Y bwriad yw datblygu'r eiddo yn Ganolfan Ragoriaeth Cynaladwyedd. Mae'r adeilad yn cael ei rannu'n dair adran - adran economaidd gydag unedau busnes a 'Gofodau Gwneud', byncws boutique ac ystafell amlbwrpas at ddefnydd cymunedol a hyfforddiant. Yn ystod 2020, rydym wedi cydweithio gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu'r potensial i sefydlu gofodau gwneud yng Nghefnfaes lle bydd y gymuned yn gallu mynychu sesiynau creu gyda mynediad at offer a pheiriannau arbenigol e.e. torrwr laser ac argraffydd 3D. Yn ystod y cyfnod hefyd, bu un o Swyddogion Byw a Bod yn arwain ymgyrch ymgynghori cymunedol ar ran y prosiect gyda thros 100 o ymatebion i holiaduron cymunedol am ddyfodol yr adeilad.

**Canolfan Dyffryn Gwyrdd - 27 Stryd Fawr**

Rhwng Tachwedd 2019 ac Ionawr 2020 bu cwmni Msparc yn rhentu 'gofod gwneud' yng nghanolfan Dyffryn Gwyrdd gan gynnal digwyddiadau cyhoeddus i blant ac oedolion sydd eisiau arbrofi gydag argraffwyr 3D,argraffwyr finyl, torwyr laser a mwy. Bwriad preswyliad Msparc Ar y Lon yw hyrwyddo arloesedd ac entrepreneuriaeth. Bu'r preswyliad yn llwyddiant gyda gweithgareddau wythnosol yn cynnwys sesiynau Gofod Gwneud gyda nifer o bobl yn teithio i'r dyffryn i wneud defnydd o'r adnoddau.




Cyn y clo, bu'r ganolfan yn gartref i staff prosiect Dyffryn Gwyrdd Partneriaeth Ogwen a llogwyd desgiau i staff Cyd Ynni, Ynni Cymunedol Cymru a Wrap Cymru. Pan fydd y swyddfeydd yn ailagor, bydd y ganolfan yn gartref parhaol i staff prosiect Dyffryn Gwyrdd. Gan ddibynnu ar asesiad risg Covid, byddwn yn cynnig gofod cydweithio i fudiadau eraill yn ôl y galw.

## Maes Parcio Gerlan

Yn 2020, rydym wedi parhau i gydweithio â Chyngor Cymuned Bethesda ar brosiect Maes Parcio Gerlan. Rydym wedi cynorthwyo trwy baratoi cynllun busnes a chomisiynu Ymgynghoriaeth Gwynedd i ddylunio a rheoli prosiect y maes parcio. Mae'r Cyngor bellach wedi cyflwyno cais caniatâd cynllunio a chais caniatâd benthyg i Lywodraeth Cymru. Bydd Partneriaeth Ogwen yn parhau i gynorthwyo trwy chwilio am grantiau i gynorthwyo gyda chostau datblygu'r maes parcio.

## Siop Ogwen

Partneriaeth Ogwen yw sylfaenydd siop gymunedol Siop Ogwen ac mae'n esblygiad o'r siop grefftau fechan a oedd wedi ei lleoli yn ein swyddfa yn ôl yn 2014. Er bod y siop yn endid cyfreithiol annibynnol sy'n gweithredu fel cwmni cyfyngedig trwy warant, nid er elw bellach, mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i reoli, gweinyddu a datblygu'r siop. Yn ystod 2020, llwyddodd Partneriaeth Ogwen i gael cefnogaeth gan y Rank Foundation trwy gynllun Llechi, Glo a Chefn Gwlad i benodi prentis cymunedol i weithio yn Siop Ogwen. Bu'r prentis yn gyfrifol am weithio yn y siop o ddydd i ddydd a gweithio ar gynlluniau i adfywio'r Stryd Fawr.

## Economi Sylfaenol

Mae Partneriaeth Ogwen yn rhan o 2 brosiect economi sylfaenol sy'n cael eu hariannu gan gronfa Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru. Yn ystod 2020, rydym wedi cydweithio â Cwmni Bwyd Mor Menai ar brosiect i hyrwyddo bwyd môr yn lleol a phrosiect Dolan, sef prosiect ar y cyd rhwng Cwmni Bro Ffestiniog, Siop Griffiths a Partneriaeth Ogwen i hyrwyddo a meithrin yr economi sylfaenol. Fel rhan o brosiect Dolan, mae staff Partneriaeth Ogwen wedi bod yn cydweithio ar brosiectau megis Kickstart a chynllun twristiaeth gymunedol. Bydd y prosiectau hyn yn dirwyn i ben ym mis Mawrth 2020 ond bydd Partneriaeth Ogwen yn parhau i gydweithio trwy Dolan.




*Cwmni Bwyd Môr Menai yn Ffair Cadwyn Ogwen Haf 2020*



# Sgiliau a Phobl Ifanc



*Criw Byw a Bod – Lisa Megan, Caleb Rhys, Cadi Roberts ac Elin Cain*

## Cynllun Byw a Bod

Yn ystod haf 2020, bu Partneriaeth Ogwen yn rhan o brosiect Byw a Bod gan Arloesi Gwynedd Wledig. Cyflogwyd 4 person ifanc dros gyfnod o 8 wythnos gan arwain ar 4 prosiect cymunedol gwahanol yn cynnwys;

- cydlynu pwyllgor i ymgeisio am grant Cronfa Treftadaeth y Loteri i ddathlu 200 Mlwyddiant Bethesda
- cynnal ymgynghoriad cymunedol i ddatblygiad Canolfan Cefnfaes
- sefydlu Clwb Darllen Dyffryn Ogwen a threfnu digwyddiadau llenyddol ar-lein
- cynnal darn o ymchwil cymunedol i asesu barn ein cymuned am yr economi, cymuned, iaith a diwylliant a’r amgylchedd.

Yn ystod y cyfnod, cafodd y 4 brofiad ymarferol o waith datblygu cymunedol ac mae’r 4 wedi ymrwymo i barhau i gydweithio efo’r Bartneriaeth yn y dyfodol, boed hynny’n gyflogedig neu’n wirfoddol. Roedd hwn yn brosiect pwysig o ran datblygu arweinwyr cymunedol ifanc ac rydym yn trafod dilyniant i’r prosiect hwn efo Arloesi Gwynedd Wledig ar hyn o bryd.

# Llechi Glo Cefn Gwlad.

Mae Partneriaeth Ogwen yn rhan o brosiect cenedlaethol o'r enw Llechi, Glo a Chefn Gwlad sy'n dod â 9 menter gymdeithasol o ardaloedd gwahanol o Gymru at ei gilydd. Ddiwedd 2019, llwyddwyd i ddenu nawdd gan y Rank Foundation a'r Loteri Genedlaethol i ariannu prosiect 3 blynedd a fydd yn cynnig cyfloed i 27 o brentisiaid cymunedol weithio efo'r 9 mudiad ar brosiectau datblygu cymunedol ac economi sylfaenol.

Yn 2020, cyflogwyd Fflur Wyn fel Arweinydd Cymunedol cyntaf Partneriaeth Ogwen a bu'n gweithio ar amrywiol brosiectau i ddatblygu Siop Ogwen a chefnogi'r Stryd Fawr. Yn ystod ei chyfnod efo ni, trefnodd weithgareddau 'Diwrnod y Llyfr' a sesiynau crefft ar-lein i blant yn ystod y pandemig. Bydd yr ail brentis yn dechrau ym mis Ionawr 2021 gan ganolbwyntio ar gefnogi datblygiad Cadwyn Ogwen.



*Fflur Wyn – Prentis Cymunedol fel rhan o brosiect Llechi Glo a Chefn Gwlad*

# Eiddo

Mae asedau dan berchnogaeth Partneriaeth Ogwen wedi parhau yn gyson yn 2019-2020. Mae ein portffolio eiddo yn gyfuniad o adeiladau fel a ganlyn:

Adeiladau rydym wedi'u prynu trwy grant a/neu fenthyciad (26 a 27 Stryd Fawr)

Adeiladau rydym yn gyfrifol amdanynt trwy gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda.

Adeiladau rydym â phrydles arnynt gan Gyngor Sir Gwynedd (Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen)

Rydym ar fin arwyddo prydles 3 blynedd ar adeilad Canolfan Cefnfaes. Manylwn ar ddatblygiad y prosiectau hyn yn yr adran Prosiectau isod.

**Swyddfa Ogwen**

Mae Partneriaeth Ogwen yn berchen ar 26 Stryd Fawr, Bethesda sydd wedi'i rannu'n dri llawr. Mae'r llawr uchaf wedi'i rentu gan denantiaid lleol. Mae'r llawr isaf wedi'i rentu gan Heddlu Gogledd Cymru ac oddi yno y mae Swyddogion Heddlu Cymunedol Dyffryn Ogwen yn gweithio.

Mae Llawr 1 yn swyddfa i staff craidd Partneriaeth Ogwen fel arfer ond oherwydd cyfyngiadau Covid-19, mae'r staff wedi bod yn gweithio o adref ers mis Mawrth 2020. Rhagwelwn y bydd y swyddfa ar gau tan fis Ionawr 2021 o leiaf. Mae'r pandemig wedi golygu nad ydym wedi gallu llogi'r ystafell i'r gymuned ers diwedd Mawrth.

Mae swyddfa Partneriaeth Ogwen yn bwynt gwybodaeth cymunedol. Mae ein presenoldeb ar y Stryd Fawr yn gwneud gwahaniaeth o ran rhoi cyfle i'r cyhoedd gael gafael yn eu Cynghorau lleol, nodi unrhyw gwynion neu wneud ymholiadau cyffredinol. Bwriadwn ailagor cyn gynted ag y bydd hynny'n ddiogel.



**Canolfan Dyffryn Gwyrdd**

Cyn y clo, roedd Ynni Cymunedol Cymru, Cyd Ynni a staff Dyffryn Gwyrdd yn rhentu gofod yng Nghanolfan Dyffryn Gwyrdd. Roeddem hefyd yn defnyddio'r gofod i gynnal gweithgareddau. Rhwng Tachwedd 2019 ac Ionawr 2020 bu cwmni Msparc yn rhentu 'gofod gwneud' yng nghanolfan Dyffryn Gwyrdd gan gynnal digwyddiadau cyhoeddus i blant ac oedolion sydd eisiau arbrofi gydag argraffwyr 3D, argraffwyr feinyl, torrwyr laser a mwy. Bwriad preswyliad Msparc Ar y Lon oedd hyrwyddo arloesedd ac entrepreneuriaeth ac mae'r cydweithio â MSparc yn parhau yng nghyswllt Canolfan Cefnfaes. Yn ystod y clo, mae'r Ganolfan wedi ei defnyddio'n wythnosol i ddosbarthu bwyd trwy gynllun FairShare.

**Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen**

Yn ystod 2020, rydym wedi parhau i wneud gwelliannau i'r eiddo a datblygu defnydd cymunedol o'r gofod. Mae un adran o'r adeilad bellach yn cael ei hisbrydlesu i Gwmni Addysg Rhyw lleol. Ym mis Mawrth 2020, gosodwyd paneli solar Ynni Ogwen ar do'r Llyfrgell sy'n golygu bod yr adeilad yn cael ei bweru gan ynni cymunedol lleol. Roedd y pŵer yma hefyd yn cyflenwi'r car cymunedol trydan a fu'n cael ei beilota yma yn ystod 2019-2020. Rydym hefyd wedi comisiynu astudiaeth effeithlonrwydd ynni o'r adeilad gan Cynaladwyedd Cymru. Bydd yr adroddiad yn arfogi unrhyw geisiadau grant i wella'r eiddo tu hwnt i 2020.
Cyn y clo, bu'r ystafell yn cael ei defnyddio gan fudiadau a sefydliadau yn cynnwys Clwb Camera Dyffryn Ogwen, Cyd Ynni, Dyffryn Gwyrdd ac eraill. Rydym yn gobeithio dechrau llogi'r ystafell gymunedol eto ym mis Ionawr 2021. Mae Cynghorau Cymuned Llanllechid, Llandygai a Bethesda yn parhau i gyfrannu tuag at gostau rhedeg yr adeilad er mwyn sicrhau bod y Llyfrgell yn parhau ar agor.

**Canolfan Cefnfaes**

Mae'r brydles derfynol bellach wedi dod i law a bydd Partneriaeth Ogwen yn cymryd perchnogaeth o'r adeilad am gyfnod o 3 blynedd o fis Ionawr 2021 ymlaen. Manylion yn yr adran brosiectau uchod.

## Siopau, Fflatiau a Stiwdios i denantiaid lleol

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i weinyddu 9 uned ar Stryd Fawr Bethesda dan gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda.

Mae pob uned yn llawn ac mae'r tenantiaid yn cynnwys:
- Cwrw Ogwen – cwmni lleol sy'n bragu cwrw
- Black Dragon Karate – busnes martial arts a hyfforddiant arweinyddiaeth
- Cwmni Bwyd Môr Menai – busnes bwyd môr lleol
- Annie's Orphans – siop elusen yn gwerthu dillad, teganau a llyfrau ail law
- Rydym hefyd yn llogi 2 stiwdio i gwmnïau creadigol lleol –
- 9Bach – artistiaid cerddorol sy'n hanu o'r Gerlan
- Dyfal Donc – dylunwyr gwaith celf a chrefft cyfoes o Fethesda.

Mae 5 fflat hefyd yn cael eu llogi i denantiaid lleol.Mae incwm rhent yr eiddo yma yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw'r adeiladau a chostau rhedeg Partneriaeth Ogwen sy'n cynnwys cyflogi Gofalwr Eiddo un diwrnod yr wythnos.

## Prosiect y Carneddau a Chais Safle Treftadaeth y Byd Unesco

Mae Partneriaeth Ogwen yn aelod o Fwrdd Partneriaeth prosiect Partneriaeth y Carneddau sydd wedi derbyn grant sylweddol gan gronfa Treftadaeth y Loteri ac edrychwn ymlaen i gydweithio ar ddatblygiad y prosiect gyda'r staff cyflogedig maes o law.

Rydym yn parhau i gydweithio â swyddogion Cyngor Gwynedd sy'n arwain y Cais Safle Treftadaeth y Byd UNESCO i'r bröydd chwarelyddol ac yn aelod o'r gweithgor cymunedol fydd yn datblygu rhai prosiectau yn cynnwys murlun ar y Stryd Fawr. Trefnodd Partneriaeth Ogwen weithdy ar-lein ar Dreftadaeth Bensaernïol y Broydd Chwarelyddol ar y cyd a chwmni Penseiri Elinor Gray-Williams ym mis Tachwedd 2020 gyda'r bwriad o fwydo mewnbwn cymunedol i ddatblygiad Canllaw Dylunio Cais Safle Treftadaeth Byd Unesco.

## Clercio

Mae Partneriaeth Ogwen yn darparu gwasanaeth clercio i dri Chyngor Cymuned - Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llandygai a Chyngor Cymuned Llanllechid. Mae'r gwaith clercio yn cynnwys trefnu, paratoi dogfennau a chofnodi yng nghyfarfodydd y Cyngor, delio â gohebiaeth ac ymholiadau gan y cyhoedd a rheoli cyllid ar ran y Cynghorau. Mae'r Clercod yn arwain hefyd gyda gwaith ychwanegol megis cydlynu trefn taliadau pori Pwyllgor Mynydd Llanllechid a threfnu Is-bwyllgorau Cyllid y cynghorau. Gyda'r Bartneriaeth yn tyfu, rydym wedi ailstrwythuro'r gwasanaeth clercio i ryddhau amser Donna Watts i weithredu fel Rheolwr Gweinyddol i Bartneriaeth Ogwen. Ers mis Medi 2020, mae Bethan Wyn Roberts bellach yn clercio i Gyngor Cymuned Llandygai a Llanllechid. Mae Bethan hefyd yn parhau i gefnogi Donna gyda gwaith clercio Cyngor Bethesda. Mae'r ddwy yn darparu gwasanaeth clercio o ansawdd uchel i 3 Chyngor Cymuned yr ardal.

Gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Bethesda a Llandygai, mae'r Swyddog Cynnal yn parhau i wneud gwaith cliriosbwriel a chynnal a chadw gan ymateb yn uniongyrchol i bryderon y gymuned am sbwriel yn yr ardal.



*Adam, Swyddog Cynnal Partneriaeth Ogwen yn casglu sbwriel*

# Marchnata, Ymgysylltu a Chyhoeddusrwydd

Mae Partneriaeth Ogwen yn cynnal dwy wefan; www.partneriaethogwen.cymru a www.ogwen.cymru / www.ogwen.wales. Rydym hefyd yn cynnal 4 cyfrif Facebook - Ogwen360, Ynni Ogwen, Egin Ogwen a Siop Ogwen ac yn diweddaru'r tudalennau hyn yn gyson. Mae gennym hefyd gyfrifon Trydar @SiopOgwen a @YnniOgwen ac mae'r holl gyfrifon hyn yn cael eu dilyn gan dros fil o ddilynwyr. Mae'r holl waith marchnata a chyhoeddusrwydd yn cael ei rannu rhwng staff craidd y Bartneriaeth ond ddiwedd 2019, penodwyd Swyddog Marchnata Lleol i weithio'n rhan amser i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu www.ogwen.cymru <http://www.ogwen.cymru>. Swydd dros dro yw hon ond mae wedi bod yn gyfle i greu gwefan gymunedol sy'n adnodd i'n cymuned. Mae'r wefan bellach yn gartref i blatfform Cadwyn Ogwen hefyd gyda thua 700 o ymweliadau wythnosol. Ers lansio platfform Cadwyn Ogwen mae nifer yr 'argraffiadau tudalen' *(page impressions)* wedi cynyddu o tua 100 i 2000 y dydd. Ym mis Tachwedd roedd 22,201 o 'ymweliadau tudalen' (*page views)*. Bu'r Swyddog Marchnata hefyd yn darparu gwasanaeth cefnogi busnesau yn lleol trwy waith ffotograffiaeth a darparu cyngor marchnata. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn derbyn ceisiadau i siarad gyda mudiadau lleol a chenedlaethol am ein prosiectau.




Roedd y cyflwyniadau hyn yn cynnwys cyflwyno i gynhadledd BCT Cymru - 'Cymunedau, Cymraeg, Cryf' a digwyddiadau ar-lein Canolfan Cydweithredol Cymru. Ym mis Chwefror, cyrhaeddodd Partneriaeth Ogwen restr fer y Climate Coalition am waith datblygu cynaliadwy cymunedol. Er na enillon ni'r wobr, roedd yn fraint cynrychioli Cymru yn y gwobrau yn Senedd San Steffan. Daeth bri i'r sefydliad hefyd wrth i'r Prif Swyddog ennill dwy wobr genedlaethol yn ystod 2019-2020 sef 'Pencampwr Cynaladwyedd Cymru' yng ngwobrau Cynnal Cymru a gwobr 'Arloeswr Ynni Gwyrdd' yng ngwobrau Regen Prydain. Ddiwedd 2020, cydnabuwyd gwaith y Bartneriaeth gan Ganolfan Gydweithredol Cymru, DTA Cymru a Social Enterprise UK wrth inni gael ein cynnwys ar Restr Anrhydedd Social Enterprise UK am ein gwaith yn sefydlu Cadwyn Ogwen a chefnogaeth arall i'n cymuned oherwydd Covid-19.




*Donna Watts, Rheolwr Gweinyddol a Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen gyda'r Aelod Seneddol Hywel Williams yng Ngwobrau 'Green Heart Heroes Awards – The Climate Coalition' yn San Steffan.*

PARTNERIAETH OGWEN